



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams

Dydd Mercher, 12 Ebrill 2023 am 2.00 pm

Yn Bresennol: Paula O'Connor (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cynghorydd(wyr)

A J Jeffery
M W Locke
T M White

Y Cynghorydd(wyr)

J W Jones
S Pritchard
D H Hopkins

Y Cynghorydd(wyr)

M B Lewis
L V Walton

Aelod(au) Lleyg

Gordon Anderson
David Roberts

Julie Davies
Philip Sharman

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd D H Hopkins Dirprwy Arweinydd y Cyngor

Swyddog(ion)

Ness Young
Sarah Lackenby
Debbie Smith
Simon Cockings
Jeremy Parkhouse

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro
Prif Swyddog Trawsnewid
Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol
Prif Archwiliwr
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Sefydliadau Cynrychioliadol

Gillian Gillett Archwilio Cymru

Ymddiheuriadau am absenoldeb

P R Hood-Williams

107 Aelod Lleyg Newydd.

Croesawodd y Cadeirydd David Roberts i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dilyn ei benodiad fel Aelod Lleyg gan y cyngor ar 30 Mawrth 2023.

108 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cyngorwyr M B Lewis a T M White gysylltiadau personol â Chofnod Rhif 110 - Strategaeth a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24.

109 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel cofnod cywir.

110 Siarter Archwilio Mewnol 2023/24.

Cyflwynodd Simon Cockings, Prif Archwilydd, adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Siarter Archwilio Mewnol 2023/24.

Tynnodd sylw at y siarter a ddarparwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- Diffiniad o Archwiliad Mewnol;
- Rôl a swyddogaeth archwilio mewnol;
- Cwmpas Archwiliad Mewnol;
- Annibyniaeth Archwiliad Mewnol;
- Rôl Ymgynghorol Archwiliad Mewnol;
- Rôl twyll, llwgrwobrwyo a llygru archwilio mewnol;
- Adnoddau archwilio mewnol; a
- Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

Cadarnhaodd y Prif Swyddog nad oedd ganddo unrhyw gyfrifoldeb rheoli arall a oedd wedi cyfyngu ar annibyniaeth yr Archwiliad Mewnol.

Cadarnhawyd bod Prif Archwilydd Cyngor Blaenau Gwent yn cynnal yr asesiad allanol, a oedd eisoes wedi dechrau. Byddai'n cysylltu â'r Cadeirydd fel rhan o'r asesiad.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Llinellau adrodd y Prif Archwilydd.
- Y broses asesu allanol a'r arbenigedd i gynnal yr adolygiad a geir o fewn Grŵp Prif Archwilwyr Cymru.
- Opsiynau amgen posib yn y dyfodol ar gyfer yr asesiad allanol, yn arbennig gan ddefnyddio asesydd annibynnol allanol.
- Sicrhau bod y fersiwn gywir o gylch gorchwyl y Pwyllgor wedi'i chynnwys gyda'r adroddiad.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r opsiynau amgen ar gyfer asesu allanol yn y dyfodol gael ystyriaeth gan y Prif Archwilydd a'r TRhC. Dywedodd y Prif Archwilydd wrth y Pwyllgor y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod Grŵp Prif Archwilwyr Cymru a thynnodd sylw at y ffaith bod y broses asesu allanol yn digwydd bob 5 mlynedd.

Penderfynwyd cymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol ddrafft 2023/24, yn amodol ar gynnwys y cylch gorchwyl cywir ar gyfer y Pwyllgor.

111 **Strategaeth a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24.**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24.

Darparwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2023/24 yn Atodiad 1, crynodeb o Gynllun Archwilio Mewnol 2023/24 yn Atodiad 2 a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24, gan gynnwys cwmpas, yn Atodiad 3.

Ychwanegwyd y byddai'r Is-adran Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 yn cynnwys 9.1 aelod o staff cyfwerth amser llawn, ynghyd â'r Prif Archwilydd, yr un lefel o adnoddau i'r rheini sydd ar gael yn 2022/23. Roedd hyn yn rhoi cyfanswm o 2,366 o ddiwrnodau a fyddai ar gael. Amlygwyd bod y cynllun yn darparu digon o staff ar draws adrannau.

Byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybod bob chwarter am y cynnydd a wnaed gan yr Is-adran Archwilio Mewnol wrth gwblhau'r Cynllun Archwilio.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cyfarfod â'r Prif Archwilydd a'r Prif Archwilwyr eraill ynglŷn â'r Cynllun. Ychwanegodd fod y cyfarfod wedi bod yn gynhyrchiol iawn a bod y sylwadau a wnaed wedi'u hystyried. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch maint y Cynllun, adnodd hysbys Archwilio Mewnol, effeithiolrwydd y Cynllun a chydymffurfio â gweithdrefnau ariannol lefel is.

Ychwanegodd ymhellach fod gwelliannau awgrymedig wedi'u cynnwys yn y Cynllun ac y byddai'r ffocws i ddechrau ar y meysydd risg uwch nes bod yr adnodd staffio'n cael ei gadarnhau.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Yr anawsterau a wynebwyd gydag adnoddau staffio.
- Adolygu'r cylch Archwiliadau Sylfaenol i system hybrid a monitro cynnydd i ryddhau diwrnodau ychwanegol.
- Rhoi ystyriaeth i gynyddu nifer yr adolygiadau trawsbynciol i ddarparu adolygiadau mwy cytbwys, risg uchel a oedd yn canolbwyntio mwy ar y dyfodol a sut y gallai'r Cynllun newid o bosib o fewn y flwyddyn oherwydd problemau adnoddau.
- Yr ymagwedd realistig sy'n cael ei chymryd gan y Prif Archwilydd mewn perthynas â'r Cynllun a'r sicrwydd yr oedd yn ei ddarparu i'r Pwyllgor.
- Blaenoriaethu ardaloedd risg uwch.
- Prif flaenoriaethau ar gyfer archwiliadau trawsbynciol a sylfaenol.
- Sgoriau asesu risg ar gyfer adolygiadau newydd a'r gweithdrefnau a ddilynir gan y Prif Archwilydd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Archwilydd ystyried ai'r Adran Addysg oedd yn gyfrifol am adolygiadau Ysgolion Cynradd Clydach a Chrwys, ac nid Archwilio Mewnol o gofio mai'r Adran Addysg oedd wedi gofyn amdanynt. Ychwanegodd, oherwydd

maint y Cynllun a'r problemau adnoddau, y gallai'r cais gael ei wthio'n ôl er mwyn i reolaeth ganolog ddelio ag ef..

Penderfynwyd nodi'r Strategaeth Archwilio Mewnol a chymeradwyo Cynllun Blynyddol 2023/24.

112 Trosolwg o Risgiau Corfforaethol - Chwarter 4 2022/23.

Rhoddodd Ness Young, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi trosolwg o statws risgiau corfforaethol y cyngor i roi sicrwydd i'r Pwyllgor eu bod yn cael eu rheoli'n unol â pholisi a fframwaith rheoli risgiau'r cyngor.

Roedd y canlynol yn crynhoi statws y risgiau a gofnodwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar ddiwedd Chwarter 4 2022/23:

Roedd 4 risg statws coch yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar ddiwedd Chwarter 4 2022/23:

- Rhif Adnabod Risg 153: Diogelu.
- Rhif Adnabod Risg 159: Rheolaeth Ariannol: Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhif Adnabod Risg 222: Digidol, Data a Seiberddiogelwch.
- Rhif Adnabod Risg 334: Argyfwng costau byw.

- Cofnodwyd bod yr holl risgiau corfforaethol wedi'u hadolygu o leiaf unwaith yn ystod Chwarter 4.
- Nid ychwanegwyd risgiau newydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Ni chafodd unrhyw risgiau corfforaethol eu dadactifadu.
- Ni chafodd unrhyw risgiau eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Ni chafodd unrhyw risgiau corfforaethol eu tynnu oddi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Newidiodd y statws COG Rhif adnabod y Risg 94: Newidiodd cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion o GOCH i OREN.

Roedd Atodiad A yn cyflwyno'r risgiau a gofnodwyd ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y cyngor ar 30 Mawrth 2023.

Nodwyd y byddai data Mawrth 2023 yn ymddangos yn adroddiad trosolwg o risgiau Chwarter 1 2023/24. Roedd yr adroddiadau ar gyfer pob risg yn cynnwys gwybodaeth esboniadol gyffredinol yn ymwneud â'u dosbarthiad.

Dilynydd hyn gan drafodaethau ar y canlynol: -

- P'un a oedd y camau a gyflwynwyd i reoli risgiau'n gweithio.
- Risgiau cynhenid/gweddilliol a chanolbwyntio ar y mesurau i leihau risgiau.
- Hyfforddiant yn y dyfodol i'r Pwyllgor ddeall y broses yn well, yn enwedig y prosesau sgorio.
- Y diffyg yn y system a arweiniodd at dynnu rhai sgoriau anghyson drwodd.
- Rhoi ystyriaeth i ddatblygu goddefiant risg mewn adroddiadau.

113 Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Corfforaethol: Amgylchedd Rheoli Mewnol 2022/23.

Cyflwynodd Ness Young, , Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu amgylchedd rheoli Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, gan gynnwys rheoli risgiau, er mwyn sicrhau: bod swyddogaethau'n cael eu harfer yn effeithiol; bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol ac yn economaidd a; bod llywodraethu effeithiol i sicrhau'r trefniadau hyn.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r broses o fewn y Gyfarwyddiaeth mewn perthynas â rheoli risgiau a nodwyd bod disgwyl i Gyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Corfforaethol gydymffurfio'n llawn wrth adolygu mesurau rheoli, geirfa risgiau a lefelau risg bob mis fel rhan o ymagwedd gydlynol. Roedd Atodiad A yn amlinellu'r Risgiau Corfforaethol a Risgiau'r Gyfarwyddiaeth hyd at 24 Mawrth 2023 ac roedd Atodiad B yn amlinellu Map Sicrwydd y Gwasanaethau Corfforaethol.

Darparwyd manylion rheoli risgiau, parhad busnes, rheoli perfformiad/dangosyddion perfformiad allweddol, gwneud penderfyniadau, rheoli cyllid ac adnoddau, gweithdrefnau twyll ac amhriodoldeb ariannol a chydymffurfio â pholisïau, rheolau a gofynion rheoliadol. Amlinellwyd manylion llywodraethu partneriaeth a chydweithio hefyd.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Partneriaeth a chydweithio, y themâu cyffredin a'r arferion da a geir rhwng sefydliadau partner a'r prosesau sy'n cael eu dilyn gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a fyddai'n tynnu sylw at y themâu.
- Y buddion a lefel y sicrwydd y byddai'r Oracle Fusion yn eu cyflwyno i'r Awdurdod a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Diolchwyd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol am adolygiad manwl a chynhwysfawr.

114 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Adroddwyd am Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 'er gwybodaeth'.

115 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth'.

Nodwyd sylwadau'r pwyllgor ynghylch cyfarfodydd yn dychwelyd i gylch chwe wythnos yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.14 pm

Cadeirydd